

Sut gall natur cymunedau, teuluoedd ac ysgolion lywio eich datblygiad i fod yn athro proffesiynol

Cyflwyniad

Un o fy nhybiaethau am fod yn athrawes y Cyfnod Sylfaen oedd bydd amrywiaeth o blant o fewn y dosbarth (ethnigrwydd, hil a chrefydd) o ganlyniad i gymdeithas amlddiwylliannol heddiw. Ond, ers i mi ymweld â fy ysgol leoliad sylweddolais nad oedd amrywiaeth enfawr. Wrth ddadansoddi ystadegau'r ysgol gyda'r pennaeth nad oes amrywiaeth ethnigrwydd gyda canran o 0.3% o'u disgyblion ddim yn dod o Gymru. Efallai, mae hwn o ganlyniad i ddiffyg amrywiaeth yn y gymuned neu oherwydd mae gan bobl o dramor hoffter i'w plant mynychu'r ysgol Saesneg lleol ar draws yr heol yn lle ysgol Cymraeg. Yn nôl ymchwil mae dosbarth amrywiol yn annog plant i ddeall a dysgu am brofiadau, anawsterau a safbwyntiau gwahanol, sy'n annog i'r plant myfyrio a datblygu empathi oherwydd bydd digwyddiad yn gysylltiedig i wyneb (TCI Blogs, 2019).

Cred arall sydd gen i yw bod chwarae a dysgu o fewn y gartref yn bwysig i annog datblygiad. Wrth ymchwilio i ddamcaniaethwyr, mynychu darlithoedd a siarad ag athrawon o'r diwrnodau pontio, sylweddolais yr effaith enfawr cafwyd ymrwymiad rhiant ar dyfiant blentyn. Yn nôl GIG (2018) i blant datblygu mae angen iddyn nhw gael sylw o rywun sy'n agos iddynt a'r ffordd gorau i wneud hyn yw trwy chwarae, er mwyn iddyn nhw ddatblygu sgiliau angenrheidiol, megis cyfarthrebu, hyder a chreadigrwydd (CHA, 2018). Mae rhieni yn yr athrawon cyntaf a mwyaf pwysig mewn bywyd plentyn ac yn chwarae rôl hanfodol wrth siapio sgiliau llythrennedd, cymdeithasol ac emosiynol (CHA, 2018). Yn ogystal â hyn sylweddolais wrth fynychu'r diwrnodau pontio pa mor hanfodol yw'r amgylchedd dysgu i ddatblygiad plentyn. Mae amgylchedd gymhwysol, cyfforddus a diogel yn gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiad dysgu plentyn. Yn nôl ymchwil, mae angen i amgylchedd dysgu cwrdd ag anghenion unigol y disgyblion, er mwyn cwrdd a'r her yma mae angen i athrawon darparu amgylchedd ffisegol a diwylliannol sy'n deniadol a grymuso'r plant (Brown, 2015).

Amrywiaeth o ddisgyblion

Cefais brofiad yn ysgol Saesneg cyn cychwyn y brifysgol ac roedd amrywiaeth o grefyddau ac ethnigrwydd, felly efallai dyma pam tybiais bydd ysgolion eraill yn debyg. Ond, ers i mi ymweld ag ysgolion Cymraeg sylweddolais roedd diffyg amrywiaeth. O bosib mae diffyg amrywiaeth o fewn ysgolion Cymraeg oherwydd mae gwell gan bobl o ddiwylliannau gwahanol i'w plant mynychu ysgolion Saesneg. Yn nôl erthygl gan ddarlithiwr Simon Brooks, nid yw'n synnu pam mae rhieni grwpiau ethnig lleiafrifol yn gweld ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai atyniadol o ganlyniad i ddosbarthiadau niferus, bod yng nghanol dadlau gwleidyddol a'r ffaith bod cael mynediad i ysgol

Cymraeg yn anodd (2010). Disgrifiwyd ysgolion Saesneg yn ddinasoedd Cymru fel ‘amlddiwylliannol’, ar y llaw arall soniwyd bod ysgolion Cymraeg ‘mono-diwylliannol/mono-ethnig’. Yn y ddadl arweinyddiaeth Llafur Cymru yn 2009 datganodd Gweinidog Edwina Hart;

“Dwi am i addysg cyfrwng Cymraeg bod yn agored i bawb. Dwi’n becsio nad yw pob ysgol yn adlewyrchu eu cymunedau lleol, fel ein dinasoedd mwyaf megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd sy’n cael diffyg o wynebau du. Y peth gwaethaf gall digwydd i’r iaith Cymraeg yw dod yn anghynhwysol a chyfyngedig”. (dyfynnwyd gan Brooks, 2010)

Ymhellach, soniwyd sut i ddatrys y broblem yma sef ehangu addysg cyfrwng Cymraeg trwy eu gwneud yn fwy ar gael yn enwedig yn dinasoedd mawr sy’n tueddol o atynnu amrywiaeth o bobl (Brooks, 2010).

Mae amrywiaeth yn y dosbarth yn gynnig nifer o fuddion i ddatblygiad plentyn. Mae’n cynnig safbwyntiau gwahanol iddyn nhw oherwydd bod cefndir gwahanol gan bob plentyn, felly datblyga plant meddwl agored achos nad ydyn nhw’n gyfunedig i un barn (TCI Blogs, 2019). Pryd datblyga plentyn meddwl agored maen nhw’n gallu pwysu a mesur sefyllfaoedd trwy ystyried barnau amrywiol sy’n fuddiol i sut maen nhw’n ymdrin â’r byd (TCI Blogs, 2019). Cefnogwyd y ddadl yma gan Fox, Wells a Cordova-Cobo sy’n datgan bod dosbarthiadau cynwysedig yn cyflwyno plant i ddisgyblion amrywiol a gwadrol iddyn nhw ac arweinia at sgiliau gwybyddol gwell gan gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau (2016).

Pwysigrwydd dysgu a chwarae gartref

Nad yw dysgu’n stopio wrth i blentyn dychwelyd adref ar ôl diwrnod ysgol, mae dysgu a chwarae o fewn y gartref yn hanfodol i ddatblygiad plentyn. Dangoswyd ymchwil bod dylanwad rhieni yn cael effaith trawiadol ar barodrwydd ysgol a chymwysterau o enedigaeth lan i 16 mlwydd oed (EYC, 2016). Bwriad y cyfnod sylfaen yw creu cysylltiad rhwng amgylchedd dysgu'r ysgol a chartref trwy annog ymglymiad rhieni. Yn gymdeithas heddiw mae mwyafrif o rieni yn gweithio llawn amser ac yn gweld yn anodd gwneud amser i chwarae rôl yn dysgu eu plant, felly mae cysylltiadau gyda’r ysgol yn hynod o bwysig (EYC, 2016). Wrth fynychu diwrnodau pontio sylweddolais barodrwydd yr ysgol i annog ymglymiad y rhieni yn dysgu eu plant trwy gynnal diwrnodau dathlu gwaith, nosweithiau rhieni a rhannu ymarferion ar wefan yr ysgol. Yn nôl fy ysgol leoliad, mae’n hanfodol bod rhieni yn cael eu hysbysu ar gynnydd eu plentyn er mwyn gweithio ar bethau gartref. Mae gweithgareddau megis darllen yn rheolaidd neu ganu yn gallu cefnogi sgiliau iaith sylfaenol, hefyd bydd cyfleoedd fel archwilio’r gymuned leol yn adeiladu dealltwriaeth y plentyn o’r byd a chefnogi datblygiad corfforol (EYC, 2016). Ffordd bwysig i ddatblygu sgiliau plant yw chwarae gartref gyda’u rhieni. Mae chwarae corfforol, rhyngweithiol a dychmygol rhwng rhieni a’u plant yn gysylltiedig i ddatblygiad echddygol

bras, gwybyddol, emosiynol ac arwain (Narvaez, 2014). Yn nŵl Theori 'Sbiral' Janet Moyles datgelwyd dylai plant chwarae'n rhydd yn gyntaf, gan eu bod nhw'n archwilwyr naturiol, wedyn

Tina Bruce - the Twelve Features of Play

1. Children use first hand experiences from life;
2. Children make up rules as they play in order to keep control.
3. Children symbolically represent as they play, making and adapting play props.
4. Children choose to play - they cannot be made to play.
5. Children rehearse their future in their role play.
6. Children sometimes play alone.
7. Children pretend when they play.
8. Children play with adults and other children cooperatively in pairs or groups.
9. Children have a personal play agenda, which may or may not be shared.
10. Children are deeply involved and difficult to distract from their deep learning as they wallow in their play and learning.
11. Children try out their most recently acquired skills and competences, as if celebrating what they know.
12. Children coordinate ideas and feelings and make sense of relationships with their families, friends and cultures.

dylen nhw chwarae'n strwythuredig i gyflwyno gweithgaredd neu sgil, ac yna gadael iddyn nhw chwarae'n rhydd eto i archwilio beth ddysgon nhw (2010). Cefnogwyd hyn gan Tina Bruce a'u theori '12 nodwedd chwarae'; "mae plant yn ceisio'r sgiliau dysgon nhw'n ddiweddar trwy chwarae, fel petai'n dathlu beth maen nhw'n gwybod" (2011). Mae plant chwaraeus yn defnyddio eu gwybodaeth a sgiliau mewn gwahanol ffyrdd, lle mae rhiant chwaraeus yn defnyddio amrywiaeth o dactegau i gynnal diddordeb y blentyn, felly dyma pam mae'r perthynas yma rhwng rhiant a phlentyn wrth chwarae yn gweithio'n dda (Moyles, 2010).

<https://www.audenplace.co.uk/wp-content/uploads/2015/02/TinaBruce-12featuresofplay.pdf>

Pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

Ni sylweddolais yr effaith cafwyd yr amgylchedd ar ddysgu plentyn. Nodwyd yn y Fframwaith Cyfnod Sylfaen;

Mae amgylcheddau dan do ac awyr agored sy'n llawn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel, yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i ymchwilio a dysgu drwy brofiadau

(Llywodraeth Cymru, 2015).

Pwysleisiwyd Reggio Emilia ar greu amgylchedd croesawgar i gefnogi datblygiad emosiynol, gwybyddol a chymdeithasol plentyn, dyweda Malaguzzi (1998), "dylai'r amgylchedd gweithredu fel acwariwm, yn adlewyrchu syniadau, moesegau ac agweddau o'r rhai sy'n byw tu mewn" (dyfynnwyd gan Thornton, 2016). Ystyriwyd yr amgylchedd fel y trydydd athro/athrawes oherwydd mae'n chwarae rôl hanfodol gan ddylanwadu ar ddysgu a datblygiad y plentyn (Thornton, 2016). Yn Reggio Emilia mae plant yn cael eu gweld fel unigolion cryf gyda syniadau a theoriau eu hun am y byd, felly cafwyd yr amgylchedd eu trefnu a chyfarparu i gefnogi'r ddelwedd yma o blant (Thornton, 2016). Pwysleisiwyd pwysigrwydd y tu allan fel amgylchedd dysgu yn Fframwaith Cyfnod Sylfaen; "...rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu plant". Creda Jan White yn gryf mewn pwysigrwydd y tu allan i gefnogi dysgu a lles plant. Yn nŵl White mae chwe chydian i wneud y tu allan yn amgylchedd dysgu galluogi; defnyddio deunyddiau naturiol, cael profiadau gwahanol, defnyddio dŵr, chwarae corfforol, chwarae creadigol a chwarae adeiladwaith

(2011). Mae'r holl gydrannau yma'n darparu sgiliau echddygol bras a man, archwilio ac amlsynhwyrdd sy'n hanfodol i ddatblygiad (White, 2011).

Casgliad

Felly yn amlwg wrth edrych ymlaen at y dyfodol fel athrawes y Cyfnod Sylfaen mae'n bwysig i mi greu amgylchedd dysgu positif a chynhwysol, i gynnwys rhieni yn y dysgu trwy annog ymarfer gartref a chwarae a sicrhau bod fy nisgyblion yn deall bod amrywiaeth o bobl o fewn y gymuned.

Fy nharged cyntaf fel athrawes bydd hybu pwysigrwydd dysgu am ddiwylliannau amrywiol oherwydd bydd plant yn cyfarwyddo pobl o wahanol lefydd trwy gydol eu bywydau. Byddaf yn gwneud hyn trwy ddefnyddio deunyddiau dysgu amrywiol megis storiâu sy'n cynrychioli lleisiau gwahanol o fewn cymdeithas. Hefyd byddaf yn cysylltu gyda'r gymuned leol trwy gynnal nosweithiau diwylliannau gwahanol a thrafod am faterion fel anghydraddoldeb (Kampen, 2019).

Fel athrawes byddaf yn annog ymglymiad rhieni ac annog dysgu cartref trwy dactegau tebyg i fy ysgol leoliad megis anfon llyfrau darllen gartref yn wythnosol gyda llyfr cyswllt i wneud nodiadau, cynnal nosweithiau dathlu gwaith, rhannu ymarferion ychwanegol ar wefan yr ysgol a chael polisi drws agored felly os oes unrhyw gwestiynau i ateb neu gyngor gallai darparu. Mae erthygl Durisic a Bunijevac yn cefnogi hyn gan sôn eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad y plentyn (2017).

Ac yn olaf wrth edrych ymlaen fel athrawes byddai'n hybu syniad Reggio Emilia i greu amgylchedd diogel i blant crwydro ac archwilio'n rhydd fel dysgwyr naturiol (Thornton, 2016). Hefyd byddaf yn defnyddio llawer o'r tu allan oherwydd y buddion megis cynyddu gweithgareddau ffisegol, hybu sgiliau cymdeithasol a datblygu sgiliau datrys problem (Goddard, 2018).

Wrth gwrs ymysg hyn i gyd byddaf yn gynnwys llais y disgyblion gan eu bod yn bwysig iawn yn y cwricwlwm newydd.

Cyfeirnod

Brooks, S. (2010). *Welsh-medium education is not all-white - Click on Wales*. [ar-lein] Click on Wales. Ar gael ar: <https://www.iwa.wales/click/2010/08/ethnic-cleansing-in-civic-wales/> [Cyrchwyd 11 Chwefror. 2020].

Brown, D. (2015). *The Importance of the Learning Environment*. [ar-lein] Blog.lightspeed-tek.com. Ar gael ar: <https://blog.lightspeed-tek.com/blog/the-importance-of-the-learning-environment/> [Cyrchwyd 5 Chwefror. 2020].

Bruce, T. (2011). *Learning through Play : For Babies Toddlers and Young Children*. 2il. Llundain: Hodder Education, tud.29-31.

Durisc, M. and Bunijevac, M. (2017). *Parental Involvement as a Important Factor for Successful Education*. [pdf] tud.137. Ar gael ar: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1156936.pdf> [Cyrchwyd 12 Chwefror. 2020].

CHA (2018). *Top 5 Benefits of Learning Through Play Blog | Chatsworth Hills Academy*. [ar-lein] Chatsworth Hills Academy. Ar gael ar: <https://chaschool.org/top-5-benefits-learning-play/> [Cyrchwyd 4 Chwefror. 2020].

EYC (2016). *The importance of home learning*. [ar-lein] Earlyyearscares.com. Ar gael ar: <https://www.earlyyearscares.com/eyc/learning-and-development/influence-home-learning-development/> [Cyrchwyd 6 Chwefror. 2020].

Goddard, S. (2018). *9 reasons why outdoor learning is so important - Yellow Door*. [ar-lein] Yellow Door. Ar gael ar: <https://www.yellow-door.net/blog/9-reasons-why-outdoor-learning-is-so-important/> [Cyrchwyd 5 Chwefror. 2020].

Kampen, M. (2019). *7 Ways to Support Diversity in the Classroom [With Examples] | Prodigy Math Blog*. [ar-lein] Prodigy Math Blog. Ar gael ar: <https://www.prodigygame.com/blog/diversity-in-the-classroom/> [Cyrchwyd 12 Chwefror. 2020].

Ffion Hann-Jones (1708539)

Llywodraeth Cymru (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. [pdf] Caerdydd: Llywodraeth Cymru, tud.3.

Ar gael ar: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/cyfnod-sylfaen/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen> [Cyrchwyd 5 Chwefror. 2020].

Moyles, J. (2010). *The Excellence of Play*. 3ydd. Berkshire, Lloegr: Open University, tud.4-6.

Narvaez, D. (2014). *Why Play With a Child?*. [ar-lein] Psychology Today. Ar gael ar:

<https://www.psychologytoday.com/us/blog/moral-landscapes/201404/why-play-child> [Cyrchwyd 6 Chwefror. 2020].

NHS (2018). *Why play is important?*. [ar-lein] nhs.uk. Ar gael ar:

<https://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/why-play-is-important/> [Cyrchwyd 5 Chwefror. 2020].

Post, G. (2019). *The Importance of Parent Involvement in Early Childhood Education - Children's Literacy Foundation*. [ar-lein] Children's Literacy Foundation. Ar gael ar: <https://clifonline.org/the-importance-of-parent-involvement-in-early-childhood-education/> [Cyrchwyd 6 Chwefror. 2020].

TCI Blogs (2019). *The Importance of Diversity in the Classroom - TCI*. [ar-lein] TCI. Ar gael ar:

<https://www.teachtpci.com/the-importance-of-diversity-in-the-classroom/> [Cyrchwyd 4 Chwefror. 2020].

Thornton, L. (2016). *The environment as the third teacher – Early Years Teacher Status Blog*. [ar-lein]

Eyts.wp.derby.ac.uk. Ar gael ar: <https://eyts.wp.derby.ac.uk/2016/12/06/the-environment-as-the-third-teacher/> [Cyrchwyd 12 Chwefror. 2020].

Wells, A., Fox, L. and Cordova-Coba, D. (2016). *How Racially Diverse Schools and Classrooms Can Benefit All Students*. [ar-lein] The Century Foundation. Ar gael ar:

<https://tcf.org/content/report/how-racially-diverse-schools-and-classrooms-can-benefit-all-students/?session=1&session=1&agreed=1> [Cyrchwyd 6 Chwefror. 2020].

White, J. (2011). *Creating an Outdoor Learning Environment for the Early Years*. [ar-lein]

Outdoormatters.co.uk. Ar gael ar: <http://outdoormatters.co.uk/wp->

Ffion Hann-Jones (1708539)

content/uploads/2011/04/Article.-Creating-an-outdoor-learning-environment-for-the-early-years.pdf [Cyrchwyd 11 Chwefror. 2020].